

2014 Rhif 287 (Cy. 36)

**LANDLORD A THENANT,
CYMRU**

**Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio
Lesddaliadau (Ffioedd) (Cymru)
(Diwygio) 2014**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio testun Cymraeg a Saesneg Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Ffioedd) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/683) o ganlyniad i gyflwyno credyd cynhwysol gan Ran 1 o Ddeddf Diwygio Lles 2012.

Caiff rheoliad 8 ei ddiwygio er mwyn caniatáu ystyried y ffaith bod credyd cynhwysol yn cael ei dderbyn wrth benderfynu a ganiateir hepgor ffi tribiwnlys.

Caiff rhai mân ddiwygiadau eu gwneud hefyd i destun Cymraeg y Rheoliadau er mwy alinio'r testunau Cymraeg a Saesneg.

2014 Rhif 287 (Cy. 36)

LANDLORD A THENANT, CYMRU

Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prasio Lesddaliadau (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2014

Gwnaed 11 Chwefror 2014

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 13 Chwefror 2014

Yn dod i rym 10 Mawrth 2014

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan baragraffau 1 a 9 o Atodlen 12 i Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prasio Lesddaliadau (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2014, a deuant i rym ar 10 Mawrth 2014.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prasio Lesddaliadau (Ffioedd) (Cymru) 2004

2.—(1) Mae testun Saesneg Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prasio Lesddaliadau (Ffioedd) (Cymru) 2004(2) wedi ei ddiwygio yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn rheoliad 8(1) (waiver and reduction of fees)—

(a) ar ddiwedd is-baragraff (e) dileer “or”;

(1) 2002 p. 15. Diwygiwyd paragraff 1 o Atodlen 12 i Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau Tribiwnlysoedd 2013 (O.S. 2013/1036), Atodlen 1, paragraff 148.

(2) O.S. 2004/683 (Cy. 71).

- (b) dileer yr atalnod llawn ar ddiwedd is-baragraff (f); ac
- (c) ar ôl is-baragraff (f) mewnosoder—
“; or
- (g) universal credit.”

(3) Mae testun Cymraeg Rheoliadau Tribiwnlysoedd Priso Lesddaliadau (Ffioedd) (Cymru) 2004 wedi ei ddiwygio yn unol â pharagraff (4).

(4) Yn rheoliad 8(1) (hepgor a lleihau ffioedd)—

- (a) ar ddiwedd is-baragraff (ch) dileer “neu”;
- (b) ar ddiwedd is-baragraff (d)(ii) rhodder hanner colon yn lle’r atalnod llawn; ac
- (c) ar ôl is-baragraff (d)(ii) mewnosoder—
“(dd) lwfans cyflogaeth a chymorth yn seiliedig ar incwm sy’n daladwy o dan Ran 1 o Ddeddf Diwygio Lles 2007; neu
- (e) credyd cynhwysol.”

Carl Sargeant
Y Gweinidog Tai ac Adfywio, un o Weinidogion
Cymru

11 Chwefror 2014